Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

13/7/21

# Holiaduron Rhieni / Gwarchodwyr – Gwaith Cartref

Diolch i bawb a ymatebodd i'r holiaduron yn gofyn am eich barn ar y ddarpariaeth gwaith cartref. Dychwelwyd 240 o holiaduron, sydd tipyn yn fwy na'r 90 a gasglwyd pan ofynwyd am eich barn ar y testun hwn yn 2018.

O'r ymatebion y tro hwn, roedd 67% o'r farn ni ddylai'r ysgol ddarparu gwaith cartref ffurfiol, gyda 33% o'r farn y dylwn.

Mae ymateb i anghenion pawb ar y testun hwn yn anodd iawn, os nad yn amhosib. Wrth geisio canfod man canol, dyma fydd y ddarpariaeth ym mis Medi:

<u>Disgyblion y Cyfnod Sylfaen</u>

- disgyblion i ymchwilio i thema'r dosbarth trwy ddarllen llyfrau ffeithiol a gwefannau, ymweld ag ardaloedd o ddiddordeb ayyb;
- disgyblion i ddarllen yn ddyddiol;

<u>Disgyblion Cyfnod Allweddol 2</u>

- disgyblion i ymchwilio i thema'r dosbarth trwy ddarllen llyfrau ffeithiol a gwefannau, ymweld ag ardaloedd o ddiddordeb ayyb;
- disgyblion i ddarllen, dysgu eu tablau lluosi ac ymarfer eu geiriau sillafu a'u llawysgrifen yn ddyddiol;
- disgyblion i baratoi cyflwyniad llafar pob hanner tymor ar destun a ddewisir gan y dosbarth. Bydd hwn yn cael ei asesu fel rhan o weithdrefnau asesu parhaus yr ysgol
- bydd gan ddisgyblion yr opsiwn o gwblhau 'prosiect' pythefnosol, wedi ei ddewis o fwydlen tymhorol o weithgareddau, a fydd yn eu galluogi nhw i ddewis gweithgareddau o ddiddordeb iddynt, e.e creu model 3D, cyflwyniad Pwerbwynt, pobi cacen ayyb. Bydd gan ddisgyblion y cyfle i gyflwyno / arddangos ffrwyth eu llafur o flaen y dosbarth.

Bydd trosolwg o feysydd astudio Mathemateg, Cymraeg a Saesneg pob hanner tymor hefyd yn cael eu rhannu gyda rhieni, fesul gwefan yr ysgol (tudalennau dosbarth) er mwyn caniatáu i'r sawl sydd am gefnogi eu plant adref i allu gwneud hynny.

*Mae gan wefan yr ysgol adran ar gefnogi eich plentyn, gyda nifer o adnoddau a chysylltiadau i wefannau priodol eraill: https://www.yggpontybrenin.com/cefnogi-eich-plentyn-supporting-your-child/

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: yggpontybrenin@pontybrenin.swansea.sch.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

Bydd y trefniadau hyn yn eu lle am y flwyddyn academaidd 2022/23 ac yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, petai gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach i'w gwneud, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus.

Yn ddiffuant,

Mr Ceri Scourfield

Pennaeth